# Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 12 Mai 2004 |
| **Amser:** | 9.30 am - 12.30 pm |
| **Lleoliad:** | |

## Craffu ar Ddeddfwriaeth Ewropeaidd

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn cynnwys manylion am ddogfennau diweddar gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â phortffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio sydd wedi'u hadneuo yn Senedd y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn tynnu sylw at gynigion allweddol rhaglen ddeddfwriaethol a rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd am 2004 sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac adfywio.

#### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2003, cynigiodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol system lle byddai'r pwyllgorau pwnc yn craffu'n fwy rhagweithiol ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Golygai hyn dynnu sylw'r pwyllgorau pwnc at ddeddfwriaeth Ewropeaidd ddrafft a dogfennau perthnasol. Cymeradwywyd y cynigion hyn gan Banel y Cadeiryddion ar 11 Tachwedd 2003. Y Pwyllgorau unigol ddylai benderfynu faint o amser maent am ei neilltuo i ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd.

**Dogfennau'r UE wedi'u hadneuo: Ebrill 2004**

3. Mae'r manylion am yr holl ddogfennau perthnasol ynglyn â chyfiawnder cymdeithasol ac adfywio sydd wedi'u hadneuo yn Senedd y Deyrnas Unedig ystod Ebrill 2004 wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

#### Argymhelliad

4. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y ddogfen sydd ynghlwm ac i nodi eitemau i’w craffu yn y dyfodol.

**Janice Gregory AC**

Cadeirydd y Pwyllgor